# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 3 - y Senedd**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 4 Tachwedd 2014

Amser: 09.00 - 11.09

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/2463

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Darren Millar AC (Cadeirydd)<br>William Graham AC<br>Mike Hedges AC<br>Alun Ffred Jones AC<br>Julie Morgan AC<br>Jenny Rathbone AC<br>Aled Roberts AC<br>Sandy Mewies AC |
| Tystion: | Professor Andrew Davies, Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg<br>Simon Dean, Llywodraeth Cymru<br>Rory Farrelly, Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg<br>Dr Andrew Goodall, Llywodraeth Cymru<br>Dr Ruth Hussey, Llywodraeth Cymru |

| | |
|---|---|
| | Dr Hamish Laing, Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg<br>Paul Roberts, Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg |
| Staff y Pwyllgor: | Michael Kay (Clerc)<br>Claire Griffiths (Dirprwy Glerc)<br>Joanest Varney-Jackson (Cynghorydd Cyfreithiol)<br>Dave Thomas (Cynghorwr Arbenigol)<br>Huw Vaughan Thomas (Cynghorwr Arbenigol) |

**TRAWSGRIFIAD**

Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod.

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r Pwyllgor.

## 2 Papurau i'w nodi

2.1 Nodwyd y papurau.

**2.1 Gwasanaeth Awyr oddi mewn i Gymru - Caerdydd i Ynys Môn: Llythyr gan James Price (6 Hydref 2014)**

**2.2 Craffu ar Gyfrifon y Comisiynwyr ar gyfer 2013-14: Llythyr gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (14 Hydref 2014)**

**2.3 Y Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru): Llythyr at Archwilydd Cyffredinol Cymru (14 Hydref 2014)**

**2.4 Craffu ar Adroddiad Blynyddol Cyngor Celfyddydau Cymru ar gyfer 2013-14: Llythyr gan Nick Capaldi (17 Hydref 2014)**

**2.5 Y wybodaeth ddiweddaraf am Gronfeydd Strwythurol yr UE: Llythyr gan Syr Derek Jones (21 Hydref 2014)**

**2.6 Rheoli Grantiau yng Nghymru: Llythyr gan Syr Derek Jones (22 Hydref 2014)**

## 3 Llywodraethu Byrddau Iechyd GIG Cymru

3.1 Bu'r Pwyllgor yn craffu ar Dr Andrew Goodall, Cyfarwyddwr Cyffredinol, Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a Phrif Weithredwr GIG Cymru; Simon Dean, Dirprwy Brif Weithredwr GIG Cymru; a, Dr Ruth Hussey, Prif Swyddog Meddygol, Llywodraeth Cymru, ynghylch llywodraethu byrddau iechyd GIG Cymru, yn benodol ar faterion yn ymwneud â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

3.2 Datganodd Dr Hussey fuddiant am ei bod yn perthyn i Gadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

3.3 Cytunodd Dr Goodall i anfon manylion am gostau ariannol darparu cefnogaeth ychwanegol i Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, gan gynnwys defnyddio meddygon locwm a nyrsys asiantaeth, ac i anfon enwau'r holl aelodau cyfetholedig ar y bwrdd ynghyd â manylion am eu sgiliau a'u pecynnau tâl (os yn briodol). Cytunodd hefyd i ddarparu rhagor o fanylion ac amserlen ar y Fframwaith Safonau Iechyd ar gyfer Papur Gwyrdd GIG Cymru a gyhoeddwyd gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar 3 Tachwedd 2014.

3.4 Cytunodd Dr Goodall i ystyried cyhoeddi lefel yr ymyrraeth ym mhob bwrdd iechyd yn fwy cyhoeddus, efallai ar wefan Fy Ngwasanaeth Iechyd Lleol.

## 4 Llywodraethu Byrddau Iechyd GIG Cymru

4.1 Bu'r Pwyllgor yn craffu ar yr Athro Andrew Davies, Cadeirydd; Paul Roberts, Prif Weithredwr; Rory Farrelly, Cyfarwyddwr Nyrsio a Phrofiad y Claf; a, Hamish Laing, Cyfarwyddwr Meddygol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg, ynghylch llywodraethu byrddau iechyd GIG Cymru.

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o’r cyfarfod ar gyfer y busnes canlynol:

5.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 6 Llywodraethu Byrddau Iechyd GIG Cymru: Trafod y dystiolaeth a ddaeth i law

6.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a gafwyd a chytunodd y dylai'r Cadeirydd ysgrifennu at Dr Andrew Goodall, Cyfarwyddwr Cyffredinol, Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a Phrif Weithredwr GIG Cymru, yn gofyn am eglurhad ynghylch dosbarthiad yr adnoddau ariannol ychwanegol yn ystod y flwyddyn ar gyfer byrddau iechyd yn 2014-15.